Taith Dewi Sant

18fed Medi - 10fed Hydref 2010

'Timau cenhadol yn gweithio gydag eglwysi lleol i rannu Efengyl Iesu Grist'

Cenhadaeth s'yn ymwneud ag eglwysi ar draws tair sir yw ***Taith Dewi Sant*** - gan ddechrau yn Nhalacharn yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin, ac yna ymestyn ar draws siroedd Penfro a Cheredigion gyfan hyd at Aberystwyth yn y gogledd. Fe ofynnodd arweinwyr eglwysig lleol i'r gwasanaeth cenhadol ***Through Faith Missions*** gydlynu'r tair wythnos, a gwahodd pob eglwys yn yr ardal i gymryd rhan.

Ynglŷn â Through Faith Missions

Gyda'r Parchedig Daniel Cozens, efengylydd ac un o bregethwyr Caergaint, yn arweinydd ers 31 mlynedd, mae *TFM* wedi cydlynu cannoedd o genadaethau ar draws Prydain, gan gynnwys teithiau cenhadol ar raddfa eang fel hon. Mae gan *TFM* nifer o weithwyr llawn-amser profiadol, yn ogystal â chenhadon gwirfoddol dawnus. Bu dros 4,000 o wŷr a gwragedd yn gweithio mewn timau yn cynorthwyo eglwysi lleol gyda'u cenhadaeth.

Gan Daniel...

Yn y gân enwog "We'll Keep a Welcome in the Hillsides" fe geir y llinell "When you come home again to Wales". Fel brodor o Swydd Dorset, ni allaf ddweud mai Cymru yw fy nghartref, ond yn sicr rwyf wedi pregethu yno nifer o weithiau, yn anad dim ar ein Taith genhadol ar hyd Clawdd Offa yn 1996.

Credaf fod rhywbeth arbennig ynglŷn â'r gwahoddiad i gerdded ar hyd Arfordir Cymru ac rydym yn edrych ymlaen (ac nid yn ôl) at yr hyn y gall Duw ei wneud. Byddwn yn cerdded ac yn pregethu'r Efengyl fel y gwnaethom mewn cannoedd o fannau ledled y Deyrnas Gyfunol. Mae'n gyfle rhagoral, ond dywedaf yn awr, "Y mae'r cynhaeaf yn fawr, ond y gweithwyr yn brin". Gyda chymaint o alw am y teithiau yma, ein problem fwyaf yw sicrhau y bydd gennym ddigon o wŷr a gwragedd i gyflwyno'r Efengyl. Da chi, ymunwch â ni.

Pa groeso bynnag a dderbyniwn - ac yng Nghymru fe all fod yn gynnes iawn - ein nod yw dwyn Teyrnas Dduw at y tyrfaoedd sy'n sefyll ar yr ymylon, er mwyn iddynt allu dod o hyd i'r "Croeso Mwyaf" yng Nghrist ac i dderbyn maddeuant, cymod a thangnefedd yn Nuw - dyna chi wahoddiad ardderchog. Dyna chi gyfle rhagorol.



Dan H. Cozens

Y Parchedig Daniel Cozens
Arweinydd TFM

Yr hyn y mae TFM yn ei gynnig i chi...

- Fe fydd *TFM* yn cysylltu â phob eglwys yn ardal y genhadaeth.
- Fe all y tîm cenhadol (8-10 o bobl, yn ddynion i gyd neu'n gymysg eu rhyw) fod gyda chi am 4 neu 8 diwrnod.
- Chi yn yr eglwys leol s'yn cynllunio'r rhaglen; yna fe fydd tîm y *TFM* yn gweithio ar y cyd â chi.

- Rydym yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn eich galluogi i baratoi ar gyfer yr wythnos genhadol ac i sicrhau y bydd dilyniant boddhaol.
- Fe fydd holl aelodau'r timau cenhadol yn derbyn hyfforddiant a rhaid iddynt wrth eirda gan eu harweinyddion eglwysig ynghyd â gwiriad CRB. Mae arweinyddion y timau yn genhadon profiadol.

Cefndir Taith Dewi Sant

Cadeirydd y tîm cynllunio, sy'n cynnwys arweinyddion o bob rhan o ardal y genhadaeth, yw'r Parchedig Stuart Bell. Bu Stuart yn rheithor eglwys San Mihangel, Aberystwyth ers 21 o flynyddoedd. Yn gweithio gyda'r tîm cynllunio y mae dau weinidog cenhadol *TFM*.

"Cenhadaeth sydd ar ben agenda'r eglwys. Y mae *Taith Dewi Sant* yn pwysleisio ein hymrwymiad iddi."
Y Gwir Barchedig Wyn Evans, Esgob Tyddewi

"Tra'n weinidog ym Mhrestatyn rai blynyddoedd yn ôl bûm ynghlwm â "Thaith y 1000 o Wŷr" ar hyd Clawdd Offa. Cafodd yr eglwysi lleol a'r gymuned fudd mawr o fod yn rhan o'r genhadaeth a hoffwn annog yr holl eglwysi i fod yn rhan o'r Daith yng Ngheredigion a Phenfro yn ystod yr hydref."
Y Parchedig Ifan Roberts, Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru

"Y mae Undeb Bedyddwyr Cymru wedi ymrwymo i Genhadaeth a mentrau Efengylu a hyfrydwch yw cefnogi *Taith Dewi Sant* yn ei chenhadaeth yn Hydref 2010".
Ysgrifennydd Cyffredinol, Undeb Bedyddwyr Cymru, Y Parchedig Peter Thomas

Through Faith Missions
73 Street Fawr, Coton
Cambridge CB23 7PL
Ffôn: 01954 210239
admin@through-faith-missions.org
www.through-faith-missions.org

Argraff: GTP 01239 614051